

ADENDWM

Y diweddaraf am yr adroddiad Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd ar gyfer Cyngor Abertawe.

Adolygwyd yr Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd (PFRA) ar gyfer Cyngor Abertawe yn ystod 2017, gan ddefnyddio'r holl ddata a gwybodaeth berthnasol, gyfredol am y perygl o lifogydd, a chytunwyd arno â Cyfoeth Naturiol Cymru ar 27 Hydref 2017.

Mae'r datganiadau isod yn disgrifio'r adolygiad o'r asesiad risg ers i'r adroddiad asesu rhagarweiniol gael ei gyhoeddi yn 2011.

Perygl llifogydd yn y gorffennol

Cafwyd adolygiad o'r llifogydd a brofwyd ers cyhoeddi'r adroddiad Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd yn 2011, ac ni chafwyd unrhyw lifogydd a achosodd ganlyniadau a oedd yn sylweddol niweidiol yn lleol.

Perygl o lifogydd yn y dyfodol

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth newydd ers cyhoeddi'r adroddiad Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd yn 2011 sydd wedi arwain at newid yn y ddealltwriaeth o berygl llifogydd yn y dyfodol.

Ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd (APLI)

Caiff cylch 1 APLI yng Nghymru ei adolygu fel rhan o Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd manwl, cyfnerthedig a fydd yn cynnwys yr holl ffynonellau perygl llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2018.